



Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant - Newyddion o gampws Caerfyrddin

Dyma ddeddiad o straeon diweddar o gampws Caerfyrddin. Mae ein holl storïau diweddaraf yn cael eu gosod yn ystafell newyddion y Brifysgol www.uwtsd.ac.uk/cy/newyddion/ ac fe'u rhennir ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol - dilynwch i gael y wybodaeth ddiweddaraf.

Byddwn yn cynnal ein haduniad blynyddol yng Nghaerfyrddin ar benwythnos **7 - 9 Medi**.

Os oes gennych ddi-ddordeb i fynychu, llenwch y ffurflen archebu amgaeedig neu ewch i www.uwtsd.ac.uk/cy/alumni

Y Drindod Dewi Sant yn 7fed ym Mhrydain ar gyfer 'Profiad Academaidd'

Mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant wedi cael ei gosod yn y deg uchaf ar gyfer 'Profiad Academaidd' yn Arolwg Profiad Myfyrwyr 2018 y Times Higher Education 2018.

O blith y 116 o brifysgolion ym Mhrydain a oedd yn rhan o'r arolwg, a thu ôl i Brifysgol Harper Adams, Prifysgol Rhydychen, Prifysgol St Andrews, Prifysgol Caergrawnt, Prifysgol Chichester a'r Coleg Milfeddygol Brenhinol yn unig, roedd y Drindod Dewi Sant yn y 7fed safle ar draws y DU ac yn 1af yng Nghymru ar gyfer 'Profiad Academaidd'.

O fewn y categori 'Profiad Myfyrwr' sgoriodd y Drindod Dewi Sant yn eithriadol o dda gan ddod yn 4ydd yn y DU a 1af yng Nghymru ar gyfer 'tiwtora mewn grwpiau bach', cydradd 4ydd yn y DU a 1af yng Nghymru ar gyfer 'perthynas bersonol dda gyda staff dysgu', cydradd 6ed yn y DU ar gyfer 'Staff cefnogol ac sy'n dangos diddordeb' a chydadd 10fed yn y DU ar gyfer 'Staff/darlithoedd o safon. Yn ychwanegol, o fewn y categori 'Lles Myfyrwyr', daeth y Drindod Dewi Sant yn 10fed yn y categori 'Cefnogaeth/Lles da'.

Meddai Dr Mirjam Plantinga, Pro Is-Ganghellor Cysylltiol y Brifysgol ar Brofiadau Myfyrwyr:

"Mewn arolwg o holl Brifysgolion pennaf y Deyrnas Unedig mae'n hyfryd ein gweld yn gwneud mor dda yn y categori "Profiad Academaidd". Mae cael sgôr uchel yn y categori hwn yn bwysig i'r brifysgol oherwydd dyma yw'r meysydd allweddol lle credwn ein bod yn gallu cynnig gwerth ychwanegol i bawb sy'n astudio gyda ni. Mae staff y brifysgol yn gweithio'n galed i sicrhau bod bywyd prifysgol ein myfyrwyr yn un pleserus a chyflawn, felly mae cael cydnabyddiaeth fel hon, sy'n seiliedig ar adborth myfyrwyr, yn newyddion ardderchog. Mae'r myfyrwyr yn amlwg yn parchu a gwerthfawrogi ein staff academaidd a hoffwn ddiolch a llongyfarch yr holl staff am eu gwaith caled."

Llongyfarchiadau Gwyneth!

Llongyfarchiadau i un o'n cyn fyfyrwyr yma yng Nghaerfyrddin a chyn-lywydd Undeb Myfyrwyr y Drindod Dewi Sant (TSDSU), Gwyneth Sweatman ar gael ei hethol yn lywydd UCM Cymru.


Ar hyn o bryd hi yw Swyddog Menywod UCM Cymru, ar ôl cael ei hethol y llynedd, a bydd yn parhau i gyflawni'r swydd hon tan iddi ymgymryd â'i rôl fel llywydd yn y flwyddyn academaidd newydd.

Ganwyd Gwyneth yn Llundain a'i magu yn Ne Affrica. Astudiodd seicoleg yn y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin cyn cychwyn ar ei gyrfa ym mudiad undeb y myfyrwyr. Yn ystod ei chyfnod yn UMYDDDS lansiodd nifer o ymgyrchoedd ardderchog, yn cynnwys yr ymgyrch 'Mae'r Ferch Hon o'r Drindod yn Gallu' a oedd yn gysylltiedig ag ymgyrch genedlaethol a anogai menywod ifanc i gymryd rhan mewn chwaraeon.

Trefnodd hefyd i grwpiau o fenywod o'r Drindod Dewi Sant fynychu ymgyrchoedd cenedlaethol megis Hawlio'r Nos yn Ôl.

Dywedodd Gwyneth:

"Rwy'n falch iawn i gael fy ethol yn llywydd UCM Cymru, gan gynrychioli'r holl fyfyrwyr mewn addysg ôl-16 yng Nghymru. Rwy hefyd yn falch iawn fy mod i wedi graddio o'r Drindod Dewi Sant. Teimlaf fod fy amser yng Nghaerfyrddin wedi fy mharatoi ar gyfer y cyfle anhygoel hwn. Mae'r undeb yn y Drindod Dewi Sant yn wych a byddwn yn annog pob myfyrwr i gymryd rhan".



Llongyfarchiadau Ceredig!

Llongyfarchiadau mawr i Ceredig Emanuel, Pennaeth yr Ysgol Chwaraeon, lechyd ac Addysg Awyr Agored ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant sydd wedi ei ddewis yn gapten ar dîm sboncen Meistri Cymru. Ar ôl chwarae'n rheolaidd i glybiau yng Nghaerfyrddin a Llandeilo am flynyddoedd, penderfynodd Ceredig ei fod am gystadlu ar lefel uwch ac eleni, dyma roi cynnig ar Gystadleuaeth Gaeëdig Meistri Cymru Bourse. Enillodd Ceredig y gystadleuaeth a olygodd ei fod yn cael y fraint o fod yn gapten ar dimau Meistri Sboncen Cymru mewn cyfres o ddi-gwyddiadau gydol y flwyddyn.

"Roeddwn i'n falch iawn o ennill y gystadleuaeth - yn enwedig o gofio taw fy nod oedd cyrraedd y rownd gynderfynol," meddai Ceredig Emanuel.

"Braint hefyd oedd cael gwahoddiad i fod yn gapten ar dîm Cymru a bellach rwy'n edrych ymlaen at ddewis y garfan ac arwain y tîm wrth i ni baratoi i gystadlu yng Nghystadleuaeth y Pedair Gwlad."



Penodi Cyfarwyddwr Canolfan S4C Yr Egin



Mae Carys Ifan wedi'i phenodi'n Gyfarwyddwr Canolfan S4C Yr Egin - Canolfan greadigol a digidol newydd Y Drindod Dewi Sant a fydd yn agor ym mis Medi.

Wedi gweithio yn y diwydiannau creadigol ers ugain mlynedd, mae Carys yn Gynhyrhydd profiadol sydd wedi arwain ar nifer o brosiectau mawr yn y diwydiannau ffilm, teledu a theatr. Mae Carys hefyd wedi gweithio ar ystod o brosiectau digidol ac aml-gyfrwng ac roedd hefyd yn allweddol wrth sefydlu gŵyl gerddoriaeth boblogaidd.

Yn wreiddiol o Landudoch, bu Carys yn byw ac yn gweithio yn y diwydiannau creadigol yng Nghaerdydd am flynyddoedd cyn ymgartrefu gyda'i theulu yn Llangrannog a pharhau i weithio ar brosiectau creadigol ledled Cymru.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae Carys wedi chwarae rhan flaenllaw fel cynhyrhydd rhai o ddigwyddiadau mwyaf cyffrous Cymru gan gynnwys y digwyddiad aml-blattform Y Bont i Theatr Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth - oedd yn gyfuniad o ddrama promenâd byw, darlledu ar y cyfryngau cymdeithasol ac yn gynhyrchiad teledu.

Mae Carys hefyd yn trefnu Gŵyl Nôl a Mla'n Llangrannog sy'n dathlu'i deng mlwyddiant eleni ac wedi hen ennill ei lle yn y calendr cenedlaethol. Bu hefyd yn gweithio'n rhyngwladol ar y prosiect llenyddol Ewrop Lenyddol Fyw gyda Sefydliad Mercator ar gyfer Cyfryngau, leithoedd a Diwylliant.

"Rwy'n hynod o gyffrous wrth dderbyn y cyfle euraidd yma i arwain ar waith Canolfan S4C Yr Egin wrth i ni ddatblygu clwstwr creadigol a chreu'r amgylchedd cywir i syniadau, cwmnïau a chymunedau flaguro," meddai Carys Ifan.

"Bydd y cydweithio, cyfathrebu a rhyngweithio triphlyg rhwng y tenantiaid, y gymuned a'r Brifysgol yn allweddol i ddatblygu cynnwys arbrofol, perthnasol ac uchelgeisiol ac i sicrhau bod cynnwys Cymraeg nid yn unig yn manteisio ond yn creu'r cyfleoedd diweddaraf i ddiwallu ac ysgogi cynulleidfaoedd amrywiol - adref a ledled y byd," ychwanegodd.


Far From The Madding Crowd

Mae dros ddeg ar hugain o fyfyrwr Celfyddydau Perfformio ar y cyrsiau gradd BA Actio a BA Dylunio a Chynhyrchu Theatr wedi bod yn cydweithredu â'r cyfarwyddwr Geinor Styles sydd wedi ennill gwobrau am ei gwaith, a'r cyfarwyddwr cerdd, Daniel Lloyd, ar eu cynhyrchiad diweddar o Far From the Madding Crowd.

Mae cynhyrchiad y myfyrwr wedi ei seilio ar y nofel boblogaidd gan Thomas Hardy y mae nifer yn hoff iawn ohoni, ac sydd wedi ei haddasu gan Mark Healy. Yn ddo adroddir hanes Bathsheba Everdene gan ddefnyddio llwyfaniad ensemble a chanu gwerin byw.

Cyfarwyddwr Artistig Theatr na n'Og, Geinor Styles, sy'n cyfarwyddo'r cynhyrchiad. Yn ddiweddar enillodd hi un o Wobrau Theatr Cymru am y sioe gerdd wreiddiol Eye of the Storm - sef sioe a gyd-ysgrifennodd hi â'r gantores o gyfansoddwraig hynod lwyddiannus, Amy Wadge.

"Bu hwn yn gyfle a phrofiad ardderchog i weithio gyda myfyrwr ar Far From the Madding Crowd," meddai Geinor.



"A minnau'n Gyfarwyddwr Theatr ar gwmi theatr yng Nghastell-nedd, dyna braf yw gweld bod gennym ni gymaint o dalent ar garreg y drws. Bu hon hefyd yn ffordd dda i'r myfyrwr wneud cysylltiadau a rhwydweithio â phobl mewn cwmnïau theatr proffesiynol.

"Bu'n braf gweld y myfyrwr yn mynd i'r afael â her prif gynhyrchiad t , gydag angerdd ac ymrwymiad a hefyd gweld sut maen nhw wedi tyfu'n berfformwyr," ychwanega Geinor.

Mae gweithio gyda gweithwyr theatr proffesiynol yn elfen allweddol yn y cyrsiau Celfyddydau Perfformio a addysgir yn Y Drindod Dewi Sant a'r myfyrwr yn cael y cyfle i'w haddysgu gan ymarferwyr uchel eu parch, gan sicrhau bod yr holl raddedigion yn barod i'r diwydiant.

"Mae wedi bod yn broses ddysgu arbennig i fyfyrwr BA Actio a BA Dylunio a Chynhyrchiad Theatr i'w cynnwys mewn cynhyrchiad ar raddfa mor fawr," meddai Stacey-Jo Atkinson, Cyfarwyddwr Rhaglen ar gyfer BA Dylunio a Chynhyrchu Theatr.

"Cafodd y myfyrwr gyfle i weithio gyda dau gyfarwyddwr proffesiynol yn ogystal â lluo o weithwyr proffesiynol yn y diwydiant i wneud y sioe hon yn fyw - mae wedi bod yn brofiad creadigol rhyfeddol i bawb."

Ysgol Fusnes Caerfyrddin yn cynnal darlith 'Byw Un Blaned'

Roedd yn bleser mawr gan Ysgol Fusnes Caerfyrddin yn y Drindod Dewi Sant gynnal darlith arbennig gan yr awdur a'r newyddiadurwr David Thorpe

Canolbwyntiodd yr anerchiad yn benodol ar her byw o fewn ffiniau planedol a sut mae Cymru yn delio â'r materion hyn.

"Hoffwn i ddiolch i Ysgol Fusnes Caerfyrddin am y gwahoddiad i fod yma heddiw. Yn sicr cawsom ni drafodaeth gadarnhaol a diddorol ac roedd yn ardderchog gweld bod y myfyrwr â chymaint o ddiddordeb yn y pwnc." dywedodd David Thorpe.

"Credaf ein bod ni ar daith dyngedfennol i ddarganfod a oes modd cymhwyso Datblygu Un Blaned yn ôl y raddfa angenrheidiol a sut beth fyddai hynny.

Mae hwn yn arbrawf cyffrous yn y byd go iawn a gobeithio yr hoffai mwy o bobl fod yn rhan ohono."

Y Cyfarwyddwr Rhaglen ar gyfer BA Rheolaeth Busnes ar Gampws Caerfyrddin y Drindod Dewi Sant yw Dr Louise Emanuel. Ychwanegodd:

"Mae David yn awdur, newyddiadurwr ac ymgynghorydd uchel ei barch ac yn siaradwr ysbrydoledig ym meysydd byw 'un blaned', ynni carbon isel, effeithlonrwydd ynni a phensaemïaeth gynaliadwy - materion sydd mor bwysig i'r Ysgol Fusnes a'r brifysgol ei hun. Roedd yn gyfle arbennig i'r myfyrwr glywed rhagor am waith allweddol David ar hyd y blynyddoedd ac i gynnig syniadau eu hunain ar y pwnc wrth gwrs."